# Sir y Fflint Ifanc
# Crynodeb o Gyfarfod y Gwanwyn
# 26/02/2026

## Gweithdai'r Bore

### Rhaglen Llysgenhadon Ifanc Heddlu Gogledd Cymru

Rhannodd swyddogion yr Heddlu a Llysgenhadon Ifanc wybodaeth am waith Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r prosiectau y mae Llysgenhadon Ifanc ynghlwm â hwy. Er mwyn bod yn Llysgennad Ifanc, mae angen i chi fod rhwng 16 a 24 oed ac yn byw yng Ngogledd Cymru. Pwrpas y rôl yw hysbysu a chefnogi'r Heddlu gyda materion yn ymwneud â phobl ifanc, a dweud eu dweud ynghylch plismona a throseddau lle maen nhw'n byw.

Ceir cyfleoedd hyfforddi sy'n ymwneud â datblygu hyder, gwaith tîm ac arweinyddiaeth a bydd y llysgenhadon hefyd yn meithrin sgiliau a phrofiad gwerthfawr a pherthnasol, y gellir eu defnyddio fel rhan o'r cymhwyster Bagloriaeth Cymru, fel rhan o'u CV neu i helpu gyda cheisiadau ar gyfer addysg bellach neu addysg uwch. Caiff pobl ifanc eu cynnwys yn y gwaith o graffu ar y defnydd o bwerau'r Heddlu, yn ogystal â chwynion a digwyddiadau sy'n ymwneud â phobl ifanc – gan ddarparu adborth a gwneud argymhellion i Heddlu Gogledd Cymru.

Os ydych chi'n iau nag 16 oed ac â diddordeb yn y rhaglen, cysylltwch â ni. O bosibl y bydd prosiectau eraill y gallech chi fod yn rhan ohonynt, cyn dechrau'r rhaglen yn 16 oed.

Y meysydd blaenoriaeth ar hyn o bryd yw Iechyd Meddwl a Chyffuriau. Mae'r Llysgenhadon Ifanc wedi datblygu Cardiau Z Iechyd Meddwl sydd ar gael drwy swyddogion yr Heddlu ac mewn ysbytai ar gyfer cyfeirio pobl at gymorth.

**Camau gweithredu**: Adnodd PPT a manylion cyswllt i'w rhannu gyda chynrychiolwyr. I gael gwybod mwy, ewch i: www.northwalespolice.co.uk

### Etholiadau'r Senedd

Arweiniodd Swyddog Addysg y Senedd weithdy ar Etholiadau'r Senedd: pam ei bod hi'n bwysig pleidleisio a sut i bleidleisio. Roedd y sesiwn hon, cyn Wythnos Croeso i Dy Bleidlais, yn annog yr aelodau i ddychwelyd i'w lleoliadau i hyrwyddo democratiaeth a'r wythnos thema oedd ar y gweill.

Mae Wythnos Croeso i Dy Bleidlais yn gyfle i'r rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc i ddechrau sgwrs ynglŷn â democratiaeth a phleidleisio.

**Camau gweithredu:** Adnodd PPT i'w rannu gyda chynrychiolwyr. I gael gwybod mwy, ewch i: **Wythnos Croeso i Dy Bleidlais**

### Siarter Teithio Iach a Newid Hinsawdd

Rhannodd swyddog o'r Tîm Newid Hinsawdd y wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Newid Hinsawdd, mewn ymateb i'r holl gyfranogiad gan Sir y Fflint Ifanc yn flaenorol. Profodd Wythnos Hinsawdd Cymru ym mis Tachwedd yn llwyddiant ac er mwyn datblygu hynny ymhellach, mae Uwchgynhadledd Natur a Hinsawdd Ieuenctid wedi'i drefnu ar gyfer mis Tachwedd 2026. Rhannodd yr aelodau syniadau o ran beth allai fod ynghlwm â'r digwyddiad hwn a sut i ymgysylltu â dysgwyr blwyddyn 7 i flwyddyn 10.

**Camau gweithredu**: Rhannu gwahoddiad i aelodau fod ar grŵp gorchwyl yr uwchgynhadledd.

**Y Gymraeg mewn Addysg**
Fe arweiniwyd sesiwn gan swyddog o'r tîm Cymraeg mewn Addysg ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn a'r tu allan i'r ysgol a lleoliadau ieuenctid. Roedd yr ymarfer yn rhoi cyflwyniad i Fforwm y Cynllun Cymraeg mewn Addysg. Mae'r grŵp hwn yn canolbwyntio ar hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y gymuned. Estynnir gwahoddiad i gynrychiolwyr o Sir y Fflint Ifanc fod ar Grŵp Llywio y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

**Camau gweithredu**: Rhannu gwahoddiad i aelodau fod ar fforwm y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

**Cyfarfod y Gwanwyn**
Cynhaliwyd Cyfarfod y Gwanwyn ar ôl cinio a chafodd ei gadeirio gan gynrychiolydd o Ysgol Alun ac Ysgol Uwchradd Elfed. Gweler nodiadau o'r cyfarfod isod:

1. **Croeso a Chyflwyniadau**
2. **Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf**
   Mae safbwyntiau a lleisiau o'r gweithdy Cyfiawnder Ieuenctid wedi cefnogi'r cynllun gweithredu wrth symud ymlaen o ran y Ddyletswydd Trais Difrifol. Mae cynnydd wedi'i wneud o ran y Strategaethau Cyfranogiad a Pherthyn, a byddant yn cael eu trafod yn fuan fel eitemau. Cafodd Wythnos Hinsawdd Cymru ei lansio ar draws ysgolion ym mis Tachwedd ac fe brofodd yn llwyddiant. Roedd ysgolion yn gwerthfawrogi cael gweithgareddau â ffocws dyddiol. Mae sawl ysgol uwchradd wedi bod yn hyrwyddo'r etholiadau sydd i ddod ac yn cynnal gweithdai fel yr un y bore 'ma. Un cam gweithredu sydd i'w gwblhau yw casglu adborth gan y tîm Chwarae a'r Gwasanaeth Ieuenctid i archwilio mannau creadigol a mannau a rennir ymhellach ar draws y sir, gan gefnogi ein trydedd flaenoriaeth.

3. **Strategaeth Berthyn**
   Mae'r Gwasanaethau Addysg ac Ieuenctid yn llunio Strategaeth Berthyn, gan weithio gyda phenaethiaid o ysgolion ar draws Sir y Fflint. Mae sawl un ohonoch wedi bod ynghlwm â gwaith y grŵp ffocws a datblygu'r siarter sydd i'w gweld ar y sgrin. Ar ran Sir y Fflint Ifanc, hoffem ddiolch am yr holl waith sydd wedi'i wneud ar gyfer y siarter hon. Fe fydd dogfen ategol ynghlwm i gefnogi cymunedau ysgolion. O'r grwpiau ffocws sydd wedi cael eu cynnal gyda phlant a phobl ifanc, mae'r geiriau diogel a chysylltiadau ymhlith y cyfraniadau allweddol. Fe nodwyd bod cysylltiadau yn bwysig ar draws cymuned yr ysgol - rhwng dysgwyr, rhwng dysgwyr a staff, rhwng dysgwyr a rhiant/ gofalwr a rhwng staff a rhiant/ gofalwr. Mae nifer o ysgolion wedi bod yn canolbwyntio ar berthyn trwy flaenoriaethau ysgolion.

4. **Strategaeth Cyfranogiad**
   Yn ychwanegol i'r Strategaeth Berthyn, mae strategaeth arall ar y gweill. Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc a gynhigir fel strategaeth ar gyfer y Cyngor cyfan. Diben y strategaeth hon yw sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed a'u bod yn cael dylanwad ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Diolch eto i bawb sydd wedi bod ynghlwm â'r gwaith o ddatblygu hyn dros dymor yr Hydref. Ar hyn o bryd, mae'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu a chafodd ei gyflwyno i'r Cabinet ddydd Llun.
   Fel y gwyddom yn achos polisïau a strategaethau, ni allant fod yn hir ac mae'n ddefnyddiol cael fersiynau byrrach fel crynodebau i hysbysu plant a phobl ifanc. Un cam gweithredu allweddol wrth symud ymlaen fydd llunio fersiwn addas i blant yn ystod gweddill y flwyddyn academaidd. Cododd yr aelodau a oedd yn awyddus i fod ynghlwm â'r fersiwn addas i blant eu dwylo.
   **Cam gweithredu**: Yr aelodau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth addas i blant a phobl ifanc.

**5. . Arolwg Iach, Diogel, Hapus**

Cafwyd eglurhad gan y Swyddog Chwarae Arweiniol a'r Swyddog Gwasanaeth Ieuenctid ynghylch datblygiad arolwg y 3 Mater a sut y mae wedi datblygu i'r Arolwg Iach, Diogel, Hapus. Cymru oedd y wlad gyntaf i ddiogelu chwarae mewn cyfraith. Gall chwarae ymddangos fel gair plentynnaidd ac mae'n bosibl bod pobl ifanc yn cyfeirio ato fel treulio amser gyda'i gilydd. Ond, chwarae sy'n cael ei wneud yng nghyd-destun chwaraeon hefyd. Mae'n ddyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol i gefnogi chwarae, fel y nodir yn yr Asesiad Cyfleoedd Chwarae Digonol. Rôl Swyddogion Chwarae Arweiniol yw ystyried sut y gall holl wasanaethau'r Cyngor gefnogi chwarae a'r effaith ar bobl ifanc. Caiff cynllun gweithredu ei lunio, y gallwn ei ddilyn. Bob tair blynedd, mae'r un holiadur yn cael ei roi i blant blwyddyn 5 a 6 a phobl ifanc. Ond, rydym ni'n dal am gasglu barn pawb a mwy yn rheolaidd. Felly, mae Cyngor yr Ifanc wedi llunio cwestiynau allweddol ar gyfer plant 11 – 15 oed ynghylch cyfleoedd chwarae digonol. Bydd plant 5 – 11 oed yn dal i ddefnyddio'r un cwestiynau. Mae'r cynrychiolwyr yn awyddus i'r arolwg gael ei lansio ym mis Mawrth tan ddiwedd mis Ebrill. Cafwyd trafodaeth ynghylch cyfleoedd chwarae mewn ysgolion a chafodd ei nodi fel maes i edrych arno hefyd wrth symud ymlaen. Trydedd flaenoriaeth Sir y Fflint Ifanc ar gyfer 2025-2026 yw cael mannau creadigol a mannau a rennir.

**Camau gweithredu**: Pan fydd yr arolwg yn cael ei lansio, dylid ei rannu â'r cynrychiolwyr hefyd er mwyn ei hyrwyddo. Archwilio rhagor ar fannau chwarae a mannau a rennir yng nghyfarfodydd yr haf gyda'r tîm Chwarae.

**6. Cyngor Iechyd a Chyfeirio**

Mae Swyddog Hyrwyddo Iechyd Ysgolion yn edrych ar atgyfeiriadau iechyd ac iechyd rhywiol ar draws lleoliadau. Cytunodd y cynrychiolwyr nad oes unrhyw arwyddion clir ar gyfer clinigau iechyd rhywiol lleol ac y byddai cyfeirio pobl at hyn yn ddefnyddiol. Mae'r cynllun Cerdyn C ar waith mewn sawl ysgol ac yn profi'n ddefnyddiol ar gyfer y bobl ifanc.

**Cam gweithredu:** Bydd y Swyddog Hyrwyddo Iechyd Ysgolion yn archwilio hyn ymhellach mewn lleoliadau, er mwyn adrodd yn ôl yng nghyfarfod yr haf.

**7. . Etholiadau'r Senedd**

Ymhellach i'r gweithdy y bore 'ma, i hyrwyddo cofrestru i bleidleisio a chefnogi sgyrsiau ynghylch etholiadau, bydd Swyddogion Hyrwyddo Iechyd Ysgolion a'r Gwasanaeth Ieuenctid yn mynd draw i ysgolion yn ystod amser cinio ym mis Mawrth a mis Ebrill gyda stondinau. Roedd y cynrychiolwyr yn fodlon cefnogi'r stondinau. Bydd modd i'r bobl ifanc ofyn cwestiynau, cofrestru i bleidleisio yn y fan a'r lle neu gael gwybodaeth i fynd adref gyda nhw.

**Camau gweithredu**: Y cynrychiolwyr i gefnogi'r stondinau mewn ysgolion a hyrwyddo adnoddau ar gyfer yr etholiad ac wythnos Croeso i Dy Bleidlais.

**8. Wythnos Wych yng Nghymru**

Ers ein cyfarfod yn yr Hydref, mae ysgolion wedi derbyn rhagor o wybodaeth ynghylch y prosiect hwn. Mae nifer o ysgolion wedi cofrestru eisoes – gallai hon fod yn eitem ddefnyddiol i'w harchwilio yn eich cyfarfodydd fforwm ysgol neu ieuenctid nesaf. Mae Wythnos Wych yng Nghymru yn dod â chymunedau at ei gilydd, gan gymryd rhan mewn heriau sy'n seiliedig ar y 1,000 (cylchedd Cymru) er mwyn cefnogi nifer o elusennau. Gall heriau gael eu cefnogi gan bob lleoliad neu gall her gael ei chyflawni gan un lleoliad. Gallai gynnwys beicio 1,000 o filltiroedd, canu am 1,000 o funudau. Mae syniad wedi'i gyflwyno gan Sir y Fflint Ifanc, i gydlynu 1,000 clap ar draws Sir y Fflint. Mae fideo ar gyfer hyrwyddo'r prosiect i'w weld yma. Mae'r cynrychiolwyr yn awyddus i ysgolion gymryd rhan ac yn credu ei bod yn ffordd wych o gynnwys cymunedau ysgolion. Byddai her Sir y Fflint Ifanc yn dda hefyd.

**Cam gweithredu**: Pecynnau ieuenctid ac ysgolion i gael eu hanfon at arweinwyr staff, er mwyn eu rhannu mewn cyfarfodydd fforwm.

**9. Gweithdai Misol**

Hyd yn hyn, mae'r gweithdai misol a drefnwyd wedi cael eu cynnal ar-lein yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Ymddengys bod y model hwn yn gweithio'n dda. Mae'r cynrychiolwyr yn awyddus i'r gweithdai misol ar-lein barhau ar-lein wrth symud ymlaen, gan ei fod yn lleihau amser teithio cyn ac ar ôl y gweithdai, pan fyddant yn cael eu cynnal ar ddiwrnod ysgol. Yn ogystal, mae swyddogion y Cyngor wedi bod yn cynnal grwpiau ffocws ar draws ysgolion a lleoliadau ieuenctid, er mwyn cymryd rhan mewn gwaith prosiect a chefnogi fforymau ieuenctid ac ysgolion. Mae'r cynrychiolwyr wedi nodi effaith hyn.

**Cam gweithredu**: Cynhelir gweithdai misol ar-lein wrth symud ymlaen.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** 24 Mehefin, rhwng 9.30am-2.15pm Siambr yr Arglwydd Barry Jones, Tŷ Dewi Sant, Ewlo